**TGAU**

4531/01

# CYMRAEG
## UNED 1
## HAEN SYLFAENOL

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

2¼ awr

4531
010001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Darn Darllen 1 ar gyfer Adran A.

Darn Darllen 2 ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Mae **tair** adran i'r papur hwn. Dylech ateb **pob** adran.

Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.

Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.

Mae **un** cwestiwn yn Adran C.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¼ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
VP*(W13-4531-01)

## ADRAN A

Darllenwch y ddau ddarn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Gwaith Gydag Anifeiliaid
Darn Darllen 2: Y Sw Fynydd Gymreig

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **10 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Gwaith Gydag Anifeiliaid (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn mewn brawddegau llawn:

(i) Enwch **ddau** leoliad posibl lle gallwch weithio gydag anifeiliaid. [1]

(ii) Pa gymhwyster y byddwch chi'n gweithio tuag ato wrth hyfforddi i weithio gydag anifeiliaid? [2]

(iii) Nodwch **ddwy** ffordd o gael mwy o wybodaeth am weithio gydag anifeiliaid. [2]

**[5]**

**2. Y Sw Fynydd Gymreig (Darn Darllen 2)**

Rydych chi wedi treulio'r diwrnod yn y Sw Fynydd Gymreig ym Mae Colwyn. Ysgrifennwch **neges e-bost** at ffrind yn sôn am y diwrnod.

Dylech gyfeirio at:

- wybodaeth gyffredinol am y sw
- beth wnaethoch chi ei weld a'i wneud
- gwahanol gynlluniau'r sw. [18]

Ysgrifennwch ar ffurf **neges e-bost**. [2]

Defnyddiwch wybodaeth o **ddarn darllen 2** yn unig.
Dylech ddefnyddio **eich geiriau eich hun**.
Dylech ysgrifennu rhwng **un** a **dwy** dudalen.

**[20]**

**3. Gwaith Gydag Anifeiliaid (Darn Darllen 1)**
**Y Sw Fynydd Gymreig (Darn Darllen 2)**

Edrychwch ar y **ddau** ddarn darllen a dywedwch pa ddarn, yn eich barn chi, sy'n denu sylw'r darllenydd orau a pham.

Dylech gyfeirio at rai o'r canlynol yn y ddau ddarn wrth **roi rhesymau dros eich barn**:

- bwriad yr awdur
- pwy yw'r darllenwyr
- y math o iaith
- nodweddion arddull
- y cyflwyniad e.e. defnydd o brint, lluniau neu liw.

Wrth drafod y ddau ddarn gyda'i gilydd, dylech gyfeirio at **dri** pheth o Ddarn Darllen 1 a **thri** pheth o Ddarn Darllen 2.

Dylech **enghreifftio** neu **ddyfynnu** i brofi eich pwyntiau lle bo'n briodol. **[15]**

**[40 + 10 = 50]**

4531
010003

**TROSODD AR GYFER ADRAN B AC ADRAN C**

## ADRAN B

- Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
- Nodwch rif y cwestiwn.
- Dylai eich ateb fod rhwng **un** a **dwy** dudalen.
- Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
- Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

**4. Naill ai:**

*(a)* **Darn Creadigol**

Ysgrifennwch **ymson** person sy'n gweithio gydag anifeiliaid.
Dylech gyfleu eich profiadau a'ch teimladau.

**Neu:**

*(b)* **Darn ffeithiol**

Rydych chi'n gorfod mynd ar gyfnod o brofiad gwaith. Ysgrifennwch **lythyr ffurfiol** yn gwneud cais am le mewn lleoliad o'ch dewis. Dylech sôn amdanoch eich hun ac esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y math hwn o waith.

## ADRAN C

**5. Defnyddio Iaith**

Mae 11 gwall yn y darn isod.

Mae un gwall wedi ei gywiro'n barod fel enghraifft i chi.

**Sain ffagan > Sain Ffagan**

Rhestrwch a chywirwch y **10** gwall arall yn eich llyfryn ateb.

Mae **dau** wall ym mhob brawddeg.

**[10]**

**Amgueddfa Sain ffagan**

Sain Ffagan yw un o prif amgueddfeydd Ewrop a dyma atyniad ymwelwur mwyaf poblogaidd Cymru.

Caelodd Amgueddfa Sain Ffagan ei hagor i'r cyhoedd am y tro gyntaf yng Ngorffennaf 1948.

Mae adeiladau o bob rhan o Gymru wedi cael ei symud i Sain Ffagan yn cynnwys tai, fermdy, ysgol a chapel.

Mae garddau hardd yn Castell Sain Ffagan.

Dewch i Sain Ffagan i ti gael dathlur ffordd Gymreig o fyw!

## DIWEDD Y PAPUR

CBAC
WJEC

**TGAU**

4531/01-A

**CYMRAEG**
**UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

$2\frac{1}{4}$ awr

**DARN DARLLEN 1 AR GYFER ADRAN A**

ⓗ WJEC CBAC Cyf. VP*(W13-4531-01A)

## DARN DARLLEN 1

### Fy Nyfodol - Taflenni Swyddi Gyrfa Cymru

### Gwaith Gydag Anifeiliaid

**Y Gwaith - Beth fydda' i'n ei wneud?**



Gallwch wneud llawer o swyddi. Beth bynnag fydd y swydd, byddwch yn:

- bwydo a gofalu am anifeiliaid
- glanhau lle mae'r anifeiliaid yn byw
- delio ag anifeiliaid sâl
- delio â phobl.

**Ble bydda' i'n gweithio?**
Mae llawer o leoedd i weithio fel:

- milfeddygfa, cytiau cŵn, cytiau cathod, stablau, parc bywyd gwyllt, fferm, siop anifeiliaid anwes, sw, canolfan achub anifeiliaid.

**Pryd bydda' i'n gweithio?**

- Bydd eich oriau'n dibynnu ar eich gwaith ond mae rhan fwyaf y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y dydd.
- Penwythnosau - weithiau.

**Sgiliau - Beth mae'n rhaid i mi allu ei wneud?**



Gweithio gyda'ch dwylo



Darllen ac ysgrifennu



Bod yn dawel ac amyneddgar



Siarad â phobl



Hoffi pob math o anifail

**Hyfforddiant - Beth fydd yn rhaid i mi ei ddysgu?**

Bydd swyddi'n wahanol. Bydd angen i chi wybod:

- pa fwyd sydd ei angen ar bob anifail a phryd mae arnyn nhw ei angen
- pa ofal sydd ei angen ar anifeiliaid
- sut i ofalu am anifeiliaid sâl.

**Ble galla' i ddysgu am y gwaith?**

- Yn y coleg, ar gwrs gofal anifeiliaid amser llawn.
- Ar hyfforddiant - byddwch yn mynd allan ar leoliad am y rhan fwyaf o'r wythnos.
- Byddwch yn gweithio tuag at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar lefel 1 neu 2.

www.gyrfacymru.com

## DARN DARLLEN 1

### Gwaith gydag anifeiliaid

### Pethau i feddwl amdanyn nhw



Efallai bydd yn rhaid gweithio gydag anifeiliaid sâl neu gas.



Efallai bydd rhaid cadw cofnodion.



Efallai bydd y gwaith yn fudr/brwnt ac yn ddrewllyd.




Efallai bydd angen gwneud gwaith trwm.



Efallai bydd rhaid delio â pherchnogion anifeiliaid sy'n drist.



Efallai bydd rhaid i chi weithio yn yr awyr agored.

---

### Sut galla' i gael gwaith?

Mae hi'n anodd iawn dod o hyd i'r math hwn o waith.

Mae'r mwyafrif o bobl yn cael swydd ar ôl bod mewn coleg, ar ôl hyfforddiant neu ar ôl gwneud gwaith gwirfoddol.

Gallwch edrych yn y papurau newydd lleol a chanolfannau gwaith.

### Sut galla' i gael gwybod mwy?

Cewch fwy o wybodaeth drwy ffonio'ch canolfan gyrfa leol.

Os ydych yn yr ysgol neu'r coleg gofynnwch i'ch athro neu diwtor drefnu cyfle i chi siarad â'ch swyddog gyrfaoedd.

www.gyrfacymru.com

**TGAU**

4531/01-C

# CYMRAEG
## UNED 1
## HAEN SYLFAENOL

P.M. DYDD MERCHER, 16 Ionawr 2013

$2\frac{1}{4}$ awr

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau.**
**Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**
***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***
***English instructions overleaf.***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 4531/01 bydd angen y canlynol arnoch chi:
Llyfryn ateb 12 tudalen
Darn Darllen 1 ar gyfer Adran A
Darn Darllen 2 ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Mae **tair** adran i'r papur 4531/01. Dylech ateb **pob** adran.
Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.
Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.
Mae **un** cwestiwn yn Adran C.
Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua $1\frac{1}{4}$ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarparwyd.
Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
VP*(W13-4531-01C)

GCSE

4531/01-C

***WELSH***
***UNIT 1***
***FOUNDATION TIER***

*P.M. WEDNESDAY, 16 January 2013*

*2¼ hours*

***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***

***ADDITIONAL MATERIALS***

*As well as examination paper 4531/01 you will need the following:*
*A 12 page answer booklet*
*Reading Material 1 for Section A*
*Reading Material 2 for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*There are* **three** *sections in paper 4531/01. You should answer* **all** *sections.*
*There are* **three** *questions in Section A.*
*There is* **one** *question in Section B - choose* **one** *of the topics.*
*There is* **one** *question in Section C.*
*You are advised to spend approximately 1¼ hours to complete questions in Section A so that you may spend at least 1 hour on Section B and Section C.*
*Write your answers in the answer booklet provided.*
*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

# A mwy...


**Cynllun Cyfarfod ag Anifail**
Beth am ddod i fwydo anifail o'ch dewis a dysgu mwy am yr anifail hwnnw? Ffoniwch o flaen llaw i drefnu. Pwy arall o'ch teulu a'ch ffrindiau fydd wedi bwydo Teigr Swmatra neu bengwin? Profiad arbennig!

**Cynllun Clwb y Sw**
Beth am ddod i gyfarfod aelodau o'r sw drwy ddod yn aelod eich hun? Cewch gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog a chyffrous fel gofalu am ddraenogod ac astudio adar gwledydd Prydain.

**Cynllun Mabwysiadu**
Mabwysiadu anifail yw un o'r ffyrdd gorau o gefnogi gwaith y sw. Bydd yr arian rydych chi'n ei roi yn mynd yn syth at dalu am ofalu am yr anifail rydych chi wedi dewis ei fabwysiadu.

**Pris Mynediad**

| | |
|---|---|
| Oedolion | £9.95 |
| Plant (3-15) a myfyrwyr | £7.50 |
| Pensiynwyr | £8.80 |
| Tocyn teulu (2 + 2) | £31.40 |





**Y Sw Fynydd Gymreig**
**Yr Hen Brifforddd**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5UY**

**01492 532938**

Ar agor:

| | |
|---|---|
| Ebrill - Hydref | 9.30 - 5.00 |
| Tachwedd - Mawrth | 9.30 - 4.00 |
| Ar gau ddydd Nadolig | |

## DARN DARLLEN 2






# Am brofiad bythgofiadwy



Mae'r Sw Fynydd Gymreig yn un o atyniadau gorau Gogledd Cymru. Mae'r sw ar safle yn uchel uwchben Bae Colwyn ac wedi ei lleoli mewn gerddi hardd. Gallwch grwydro'r llwybrau ac ymlacio ar y llethrau glas. Gallwch hefyd dreulio diwrnod bendigedig yn dysgu am lawer o blanhigion prin a rhai sydd mewn perygl. Daw'r planhigion hyn o Brydain ac o wledydd eraill o amgylch y byd.



Y pethau pwysicaf yn y sw, wrth gwrs, yw'r anifeiliaid. Mwynhewch Barêd y Pengwiniaid, Cyflwyniad y Tsimpansî, Rhaeadr yr Arth, Hafan Newydd y Condor, Fferm y Plant a llawer mwy. Cofiwch fynd i weld Craig y Morloi a dod i wylio Morloi Califfornia yn cael eu hyfforddi. Mwynhewch gyffro Byd Antur y Jyngl a Maes Chwarae Antur Tarzan. Os ydych chi'n hoff o dechnoleg, dewch i weld y Ganolfan Dechnoleg, lle gallwch chwarae gemau ardderchog.

Rydym yn gwneud defnydd da o'r arian rydych chi'n ei dalu am ddod i'r sw i roi'r gofal gorau i'r anifeiliaid ac i ddatblygu gweithgareddau newydd.

# Beth sydd i'w wneud a'i weld?

**Arddangosfa Hedfan Anhygoel**

Dewch i weld ein casgliad ardderchog o adar. Cewch weld sgiliau hela'r dylluan a'r hebog yn yr Arddangosfa Hedfan sy'n digwydd ddwywaith y dydd. Hafan y Condor yw cartref newydd ysblennydd Condor yr Andes.

**Cyflwyniad Tsimpansî**

Dewch i wrando ar gyflwyniad newydd sy'n eich cyflwyno i aelodau o deulu'r tsimpansî. Cewch ddysgu sut maen nhw'n byw yn y gwyllt.

**Amser Chwarae'r Pengwiniaid**

Dewch i weld y pengwiniaid yn siglo cerdded ac yn gwibio drwy'r dŵr.



**Craig y Morloi**

Cewch lawer o hwyl yn gwylio Morloi Califfornia yn dangos eu hunain yn chwarae a deifio!

**Gerddi'r Sw**

Mae'r sw yn falch iawn o'r 37 erw o erddi sydd yma. Mae'r staff yn gofalu am y planhigion anarferol sydd yma ac rydym yn tyfu planhigion newydd o hyd. Tybed sawl un o'r planhigion fyddwch chi'n eu hadnabod?





**Byd Antur y Jyngl**

Oes gennych chi blant sy'n hoff o antur? Ydych chi'n blentyn sy'n hoff o antur? Mae yna hwyl anhygoel i blant o bob oedran yn y parc arbennig hwn. Beth am geisio cerdded ar hyd llwybr Tarzan a theithio drwy'r coed? Bydd eisiau bwyd arnoch ar ôl hyn i gyd!

**Bwyta**

Os ydych yn teimlo'n llwglyd neu'n sychedig, mae yna ddau fwyty yn y sw sy'n gwerthu bwyd poeth ac oer yn ogystal â diodydd o bob math. Mae yna siop hufen iâ a siop fferins/losin sydd ar agor yn ystod y cyfnodau prysur hefyd.

**Eisiau rhywbeth i gofio am eich ymweliad?**

Mae gennym ni siop sy'n gwerthu pob math o anifeiliaid – ond nid rhai go iawn, wrth gwrs!